



# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

2011 mccc 4

## RHAN 7

### CYMUNEDAU A CHYNGHORAU CYMUNED

## PENNOD 3

### CYFETHOL AELODAU O GYNGHORAU CYMUNED

#### **117 Canllawiau ynghylch rhoi hysbysiad cyhoeddus am gyfethol**

- (1) Wrth iddynt arfer swyddogaethau o dan is-adrannau (2) i (5) o adran 116, rhaid i aelodau cyngor cymuned a chyngor cymuned roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.
- (2) Mae'r cyfeiriad at swyddogaethau yn is-adran (1) yn cynnwys cyfeiriad at swyddogaethau o dan adran 232 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewn perthynas â hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi o dan adran 116(2).